Department for Environment, Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad ar Gynigion i Wahardd Hela Llwybrau yng Nghymru a Lloegr

26 Mawrth 2026

Ni sy’n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydyn ni hefyd yn cefnogi’n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sy'n arwain y byd.

Mae Defra yn adran â gweinidog, gyda chymorth 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae’r wybodaeth yma wedi’i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded yma, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydyn ni wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad yma ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad yma gael eu hanfon aton ni yn TrailHuntingConsultation@defra.gov.uk.

## Cynnwys


Cyflwyniad ... 4

Ynglŷn â'r ymgynghoriad yma ... 4

Rhychwant tiriogaethol a chymhwysiad ... 4

Cefndir yr ymgynghoriad ... 4

Ein cynigion ... 5

Ymateb i'r ymgynghoriad ... 5

Sut i ymateb ... 6

Cyfrinachedd a diogelu data ... 6

Gwybodaeth arall ... 7

Y camau nesaf ... 7

Cynigion polisi a chwestiynau ymgynghori ... 8

Amdanoch chi ... 8

Y Dull Deddfwriaethol Arfaethedig ... 10

Effeithiau Cymunedol a Chymdeithasol ... 15

Effeithiau ar fusnes ac effeithiau economaidd ... 16

Effeithiau amgylcheddol ... 16

Ystyriaethau pellach ... 17

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad yma

Yn unol â'r ymrwymiad ym Maniffesto’r Blaid Lafur yn 2024, mae'r llywodraeth yn bwriadu gwahardd hela llwybrau yng Nghymru a Lloegr.

Mae hela llwybrau yn weithgaredd sydd wedi tyfu o ran poblogrwydd yn sgil deddfu'r Ddeddf Hela yn 2004 a hynny fel dewis arall yn lle hela mamaliaid gwyllt. Mae'n golygu gosod llwybr arogleuon sy’n seiliedig ar anifeiliaid i gŵn ei ddilyn. Mae hyn yn creu risg gynhenid y bydd y cŵn yn codi aroglau mamal gwyllt byw gan erlid hwnnw wedyn, yn lle cadw at y llwybr a osodwyd. Yn ychwanegol, mae yna bryderon o hyd fod modd i hela llwybrau gael ei ddefnyddio fel "llen fwg" i hwyluso hela anghyfreithlon gan ei fod yn helpu i guddio unrhyw fwriad i hela mamaliaid gwyllt gyda chŵn.

Oherwydd y pryderon yma, mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno gwaharddiad ar hela llwybrau yng Nghymru a Lloegr. Dyw'r llywodraeth ddim yn bwriadu ymestyn y gwaharddiad yma i fathau eraill o weithgaredd fel hela abwyd neu 'hela esgidiau glân' a fyddai'n dal yn gyfreithlon felly.

Rydyn ni o'r farn y byddai gwaharddiad effeithiol ar hela llwybrau yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r ymgynghoriad yma yn gwahodd sylwadau ar ein dull arfaethedig o ddeddfu, ac ar unrhyw effeithiau cymunedol, cymdeithasol, busnes, economaidd neu amgylcheddol a allai fod yn gysylltiedig â gwaharddiad a sut mae'n cael ei roi ar waith. Rydyn ni’n croesawu sylwadau gan y cyhoedd, tirfeddianwyr, sefydliadau cadwraeth, grwpiau lles anifeiliaid, trefnwyr helfeydd, awdurdodau lleol, busnesau a'u cynrychiolwyr ac unrhyw bartïon eraill sydd â buddiant yn hyn o beth.

Bydd y llywodraeth yn defnyddio'r adborth sy’n cael ei roi yn yr ymgynghoriad yma i lywio'r gwaith dilynol o ddatblygu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei gynnal gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yma yn cael ei gyhoeddi maes o law.

## Rhychwant tiriogaethol a chymhwysiad

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl a nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys y mater a gadwyd yn ôl 'Hela gyda chŵn'. Gan hynny, rydyn ni’n ymgynghori ar gynigion i wahardd hela llwybrau yng Nghymru, yn ogystal ag yn Lloegr.

## Cefndir yr ymgynghoriad

Mae Deddf Hela 2004 yn ei gwneud hi'n drosedd hela mamaliaid gwyllt gyda chŵn yng Nghymru a Lloegr, yn amodol ar rai eithriadau. Ar ôl cyflwyno'r Ddeddf honno, tyfodd hela llwybrau o ran poblogrwydd fel dewis arall yn lle hela mamaliaid gwyllt gyda chŵn. Nod hela llwybrau yw dynwared helfa draddodiadol trwy osod llwybr aroglau anifeiliaid sy'n efelychu symudiad naturiol mamaliaid gwyllt trwy wrychoedd, coedwigoedd a ffosydd er mwyn i

helgwn a helfeydd eu dilyn. Mae'r tymor hela llwybrau yn dechrau yn yr hydref ac yn parhau gydol y gaeaf, gyda'r mwyafrif o helfeydd yn gorffen yn ystod mis Mawrth.

Mae hela llwybrau wedi dod yn destun pryder oherwydd, yn ôl ei natur, mae'n anodd sicrhau nad yw mamaliaid gwyllt fel llwynogod yn cael eu rhoi mewn perygl. Mae'n golygu gosod llwybr drwy ddefnyddio aroglau sy'n seiliedig ar anifeiliaid i'r cŵn ei ddilyn. Dyw'r llwybr ddim bob amser yn cael ei osod yn ddi-fwlch ond gall gael ei godi am ryw bellter a'i osod eto i ganiatáu i'r cŵn chwilio am yr aroglau. Yn aml dyw'r helwyr a'r dilynwyr ddim yn gwybod ble mae'r llwybrau wedi'u gosod. Gall hyn arwain at godi aroglau anifail gwyllt byw. Ar ôl i'r cŵn godi'r aroglau, fe allan nhw ddechrau mynd ar drywydd y mamal gwyllt yn hytrach na dilyn y llwybr arfaethedig, ac mae'r helfa mewn gwirionedd yn mynd ar drywydd y mamal gwyllt. Os yw'r cŵn yn llwyddiannus wrth eu herlid, bydd hyn yn anochel yn arwain at farwolaeth neu anaf i'r mamal gwyllt.

Gan hynny, mae'r llywodraeth yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth i wahardd hela llwybrau yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau nad yw mamaliaid gwyllt yn cael eu herlid a'u rhoi mewn perygl o ganlyniad i hela llwybrau, i atal hela llwybrau rhag cael ei ddefnyddio i osgoi atebolrwydd troseddol am hela gyda chŵn ac i helpu i orfodi'r gyfraith yn erbyn hela gyda chŵn yn effeithiol.

# Ein cynigion

Mae'r ymgynghoriad yma yn gofyn am sylwadau ar y ffordd orau i gyflawni gwaharddiad effeithiol ar hela llwybrau, gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol:

- Sut y dylai hela llwybrau gael ei ddiffinio at ddibenion gwaharddiad
- Sut i sicrhau na fydd y gwaharddiad ar hela llwybrau yn effeithio ar weithgareddau eraill rydyn ni'n bwriadu iddyn nhw barhau'n gyfreithlon, megis hela abwyd neu hela 'esgidiau glân'
- A ddylai hi ddal i fod yn gyfreithlon defnyddio llwybrau aroglau sy'n seiliedig ar anifeiliaid wrth hyfforddi cŵn at ddibenion penodol
- Ystyriaethau sy'n berthnasol i amseru cyflwyno'r gwaharddiad
- Effeithiau cymunedol, busnes, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posibl y dull arfaethedig o wahardd hela llwybrau

Mae'r cwestiynau penodol yn Rhan 2 yn gyfle ichi gynnig sylwadau ar y materion yma a llunio'r ymagwedd arfaethedig at ymdrin â'r deddfwriaeth.

# Ymateb i'r ymgynghoriad

Ymgynghoriad cyhoeddus yw hwn, ac rydyn ni'n croesawu pob barn. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i ofyn barn pawb y gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig effeithio arnyn nhw, gan gynnwys:

- aelodau o'r cyhoedd
- tirfeddianwyr a rheolwyr tir
- sefydliadau cadwraeth
- grwpiau lles anifeiliaid
- trefnwyr a chyfranogwyr helfeydd
- awdurdodau lleol

## Sut i ymateb

Y ffordd hawsaf i ymateb yw trwy llwyfan Citizen Space:
https://consult.defra.gov.uk/defra/trail-hunting-consultation

Os na allwch chi ddefnyddio Citizen Space, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori a dychwelyd eich ymateb drwy'r ebost i TrailHuntingConsultation@defra.gov.uk.

Gallwch ddychwelyd copi papur inni drwy ei anfon at:
Trail Hunting Team,
Department for Environment, Food and Rural Affairs,
2 Marsham Street,
First Floor,
Seacole Building,
London,
SW1P 4DF

Os byddwch chi'n ymateb trwy'r ebost neu'r post, byddwch cystal â rhoi:

- eich enw
- eich cyfeiriad ebost
- eich sefydliad
- teitl yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yma yn rhedeg am 12 wythnos. Mae'r ymgynghoriad yma yn agor ar 26 Mawrth 2026 ac yn cau am 11.59pm ar 18 Mehefin 2026.

Fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl dyddiad ac amser cau'r ymgynghoriad ddim yn cael eu dadansoddi.

Mae cwestiwn 29 yn esbonio sut i anfon unrhyw ddeunydd ychwanegol ar wahân nad oes modd ei gynnwys yn y gofod ar gyfer atebion ar y ffurflen yma.

Mae'r ymgynghoriad yma ar gael yn Saesneg hefyd trwy llwyfan Citizen Space.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yma yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i grynodeb yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cysylltu eraill.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol, a hynny at ddibenion ymgynghori, dadansoddi ymatebion a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig. Gallwch weld ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i uwchlwytho fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfennau ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Mae C1 yn y cwestiynau ymgynghori isod yn gofyn a hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol. Bydd yr ateb y byddwch chi'n ei roi yn ein helpu i ymateb i unrhyw gais am weld gwybodaeth mewn perthynas â'r ymgynghoriad yma. Os byddwch chi'n ateb 'Hoffwn' i'r cwestiwn,

gofynnir ichi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech iddi gael ei chadw'n gyfrinachol ac esbonio'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gall gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad yma fod yn agored i gael eu rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018)). Mae gennyn ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd yn ein helpu i gydbwyso'r rhwymedigaethau yma ar gyfer datgelu o'u cymharu ag unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â chyfrinachedd. Os cawn gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad yma, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Os byddwch chi'n ateb 'Na hoffwn' i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cysylltu preifat ar gael i'r cyhoedd.

# Gwybodaeth arall

Mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei gynnal yn unol â "Consultation Principles" Swyddfa'r Cabinet sydd i'w gweld yn: [Microsoft Word – Consultation Principles (1).docx (publishing.service.gov.uk)]

# Y camau nesaf

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yma yn cael ei gyhoeddi ar wefan llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hafan Defra.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yma yn ofalus, rydyn ni'n bwriadu datblygu deddfwriaeth i gyflwyno gwaharddiad ar hela llwybrau yng Nghymru a Lloegr, i'w chyflwyno pan fydd amser seneddol yn caniatáu.

# Cynigion polisi a chwestiynau ymgynghori

## Amdanoch chi

*Mae'r cwestiynau yma yn caniatáu inni ddeall pwy sy'n ymateb i'r ymgynghoriad yma a dadansoddi'r data. Sylwch fod atebion i rai cwestiynau yn orfodol – yn yr achosion hynny, bydd hyn yn cael ei nodi'n glir. Os na fyddwch chi'n ateb pob cwestiwn sydd wedi'i farcio'n 'orfodol', fydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yma ddim yn cael eu hystyried.*

*Mae sut rydyn ni'n defnyddio'ch data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r alwad am dystiolaeth sydd i'w weld yma https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice*

**Cwestiwn 1: Hoffech chi i'ch ymateb i'r ymgynghoriad yma fod yn gyfrinachol os bydd yna gais am weld gwybodaeth (gweler Cyfrinachedd a diogelu data uchod)? (gorfodol)**

Dewiswch un opsiwn yn unig

- ☐ Hoffwn
- ☐ Na hoffwn

Os ydych chi wedi ateb 'Hoffwn', rhowch eich rheswm/rhesymau.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2: Rhowch eich enw llawn (gorfodol)**

Os ydych chi'n cynrychioli sefydliad neu grŵp, gofynnir ichi roi enw hwnnw yn nes ymlaen (gweler Cwestiwn 5)

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3: Rhowch eich cyfeiriad ebost neu, fel arall, eich cyfeiriad post llawn (gorfodol)**

Os nad oes gennych gyfeiriad ebost, rhowch gyfeiriad post llawn gan gynnwys y cod post

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4: Ym mha rôl rydych chi'n cwblhau'r ymgynghoriad yma? (gorfodol)**

- ☐ fel unigolyn
- ☐ fel tirfeddiannwr neu reolwr tir
- ☐ fel ffermwr
- ☐ fel busnes
- ☐ fel cynrychiolydd helfa neu fel trefnydd neu gyfranogwr helfa
- ☐ fel cynrychiolydd sefydliad anllywodraethol (NGO) neu grŵp budd cyhoeddus dielw arall
- ☐ fel cynrychiolydd cymuned leol
- ☐ fel cynrychiolydd grŵp diddordeb nad yw'n cael ei ddosbarthu fel NGO neu grŵp budd cyhoeddus dielw arall
- ☐ fel cynrychiolydd etholedig
- ☐ fel cynrychiolydd corff cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol; Awdurdod Parc Cenedlaethol)
- ☐ fel academydd neu ymchwilydd
- ☐ Arall (rhowch y manylion):

**Cwestiwn 5: Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, beth yw enw'r sefydliad hwnnw? (gorfodol)**

**Cwestiwn 6: Mae'r ymgynghoriad yma yn ymwneud â chynigion a fyddai'n gymwys yng Nghymru a Lloegr yn unig. Ble rydych chi, neu'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli, wedi'ch lleoli? (gorfodol)**

- ☐ Lloegr
- ☐ Cymru
- ☐ Arall

Os ydych chi wedi ateb 'arall', rhowch y manylion yn y blwch isod

# Y Dull Deddfwriaethol Arfaethedig

*Mae'r cwestiynau yn yr adran yma yn gofyn am eich barn ar ein dull arfaethedig o ddeddfu i wahardd hela llwybrau yng Nghymru a Lloegr ac unrhyw effeithiau posibl y byddai angen eu hystyried. Rydych chi'n rhydd i ddewis a hoffech chi ateb pob cwestiwn heblaw lle nodir yn glir bod ateb yn orfodol.*

At ddibenion y ddeddfwriaeth, rydyn ni'n bwriadu defnyddio'r diffiniad canlynol o "hela llwybrau":

"Hela llwybrau" yw'r gweithgaredd lle mae ci yn cael ei gyfarwyddo i godi a dilyn aroglau sy'n seiliedig ar anifeiliaid sydd wedi'i osod at y diben hwnnw. Ystyr "aroglau sy'n seiliedig ar anifeiliaid" yw aroglau sy'n deillio o famal gwyllt, neu aroglau sy'n dynwared aroglau mamal gwyllt, yn dyblygu aroglau mamal gwyllt neu'n debyg i aroglau mamal gwyllt (neu sydd wedi'i fwriadu i wneud hynny), p'un a yw'r aroglau hwnnw'n deillio'n gyfan gwbl neu'n rhannol o gynhwysion artiffisial ai peidio.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig yma o "hela llwybrau"?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch eich rhesymau gan gynnwys, os yw'n berthnasol, eich diffiniad dewisol chi o "hela llwybrau".

| |
|---|
| |

*Byddai'n gwaharddiad arfaethedig ar hela llwybrau yn golygu y byddai'n drosedd ymwneud â hela llwybrau neu gymryd rhan mewn hela llwybrau. Rydyn ni hefyd yn bwriadu cynnwys troseddau am ymddygiad a fyddai'n helpu hela llwybrau anghyfreithlon i ddigwydd.*

**Cwestiwn 8: Pa fathau o ymddygiad a ddylai gael eu cynnwys o dan 'ymwneud â' hela llwybrau neu 'gyfranogi' mewn hela llwybrau?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9: O ran troseddau neu ymddygiad a fyddai'n helpu hela llwybrau anghyfreithlon i ddigwydd, rydyn ni'n bwriadu y dylai fod yn drosedd i berchennog neu feddiannydd tir beri neu ganiatáu i berson arall ymwneud â hela llwybrau neu gymryd rhan mewn hela llwybrau ar y tir hwnnw. Ydych chi'n cytuno?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 10: O ran troseddau neu ymddygiad a fyddai'n helpu hela llwybrau anghyfreithlon i ddigwydd, rydyn ni'n bwriadu y dylai fod yn drosedd i'r perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am gi beri neu ganiatáu i berson arall ddefnyddio'r ci ar gyfer hela llwybrau. Ydych chi'n cytuno?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11**: **Oes unrhyw fathau eraill o ymddygiad y dylid eu hystyried fel troseddau posibl mewn perthynas â throseddau neu ymddygiad a fyddai'n helpu hela llwybrau anghyfreithlon i ddigwydd?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 12: Ydych chi o'r farn bod unrhyw newidiadau deddfwriaethol eraill yn angenrheidiol i sicrhau bod gwaharddiad ar hela llwybrau yn effeithiol?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb

| |
|---|
| |

*Rydyn ni'n ymwybodol bod arogleuon sy'n seiliedig ar anifeiliaid, neu arogleuon sy'n dynwared arogleuon sy'n seiliedig ar anifeiliaid, weithiau yn cael eu defnyddio i hyfforddi cŵn at ddibenion penodol, heblaw hela llwybrau, megis rheoli plâu. Rydyn ni'n awyddus i ddeall a allai fod angen eithriadau i ymdrin ag achosion o'r fath.*

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n credu ei bod yn bosibl i gŵn gael eu hyfforddi'n briodol at ddibenion penodol heblaw hela llwybrau heb ddefnyddio arogleuon sy'n seiliedig ar anifeiliaid neu arogleuon artiffisial sy'n dynwared aroglau sy'n seiliedig ar anifeiliaid?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb ac, os yw'n berthnasol, esboniwch yr amgylchiadau lle rydych chi'n credu ei bod yn angenrheidiol parhau i ganiatáu i arogleuon o'r fath gael eu defnyddio wrth hyfforddi cŵn.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 14: Ydych chi'n credu y dylai barhau i fod yn gyfreithlon, mewn rhai amgylchiadau, i arogleuon sy'n seiliedig ar anifeiliaid, neu arogleuon sy'n dynwared arogleuon sy'n seiliedig ar anifeiliaid, gael eu defnyddio wrth hyfforddi cŵn at ddibenion penodol?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb ac, os yw'n berthnasol, pa ddibenion hyfforddi y dylid eu caniatáu.

| |
|---|
| |

*Rydyn ni am sicrhau na ddylai'r ddeddfwriaeth i wahardd hela llwybrau effeithio ar weithgareddau eraill fel hela abwyd neu 'hela esgidiau glân' lle nad ydyn nhw'n creu yr un risg i famaliaid gwyllt â hela llwybrau.*

**Cwestiwn 15:** Rydyn ni'n deall bod hela abwyd yn gamp ar gefn ceffyl lle mae llwybr aroglau artiffisial nad yw'n seiliedig ar anifeiliaid ac nad yw'n dynwared aroglau sy'n seiliedig ar anifeiliaid, yn cael ei osod ar hyd llwybr penodol i gŵn ei ddilyn. **Ydych chi'n cytuno bod hwn yn ddisgrifiad cywir o hela abwyd?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb ac, os dymunwch, cynigiwch ddisgrifiad gwahanol.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 16: Ydych chi'n credu bod perygl y bydd cŵn sy'n ymwneud â hela abwyd yn gwyro oddi wrth y llwybr sydd wedi'i osod ymlaen llaw oherwydd aroglau mamal gwyllt ac yna yn mynd ar drywydd y mamal gwyllt?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 17:** Rydyn ni'n deall bod hela 'esgidiau glân' yn weithgaredd lle mae cŵn yn hela rhedwyr dynol nad ydynt yn gwisgo nac yn llusgo unrhyw fath o ychwanegiad aroglau artiffisial. **Ydych chi'n cytuno bod hwn yn ddisgrifiad cywir o hela 'esgidiau glân'?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb ac, os dymunwch, cynigiwch ddisgrifiad arall:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 18: Ydych chi'n credu y bydd perygl y bydd cŵn sy'n cymryd rhan mewn hela esgidiau glân yn gwyro oddi wrth erlid rhedwyr dynol i fynd ar drywydd mamaliaid gwyllt?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 19: Ydych chi'n credu y byddai angen i gyfraith newydd i wahardd hela llwybrau gynnwys unrhyw ddarpariaethau ychwanegol mewn perthynas â hela abwyd neu hela esgidiau glân?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 20: Oes unrhyw weithgareddau ar gefn ceffyl heblaw hela abwyd, er enghraifft rasys pwynt i bwynt, sydd yn eich barn chi mewn perygl o gael eu heffeithio gan y gwaharddiad arfaethedig ar hela llwybrau?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 21: Sut rydych chi'n credu y bydd cyflwyno gwaharddiad ar hela llwybrau yn effeithio ar gŵn a ddefnyddir ar gyfer hela llwybrau? Er enghraifft, a fyddan nhw'n gallu cael eu hailgyfeirio at weithgareddau eraill?**

- ☐ Byddan
- ☐ Na fyddan
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

**Cwestiwn 22: Ydych chi'n credu y dylid cael cyfnod pontio ar ôl cyflwyno gwaharddiad ar hela llwybrau ac os felly, pa mor hir ddylai'r cyfnod hwnnw fod?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

# Effeithiau Cymunedol a Chymdeithasol

*Mae'r adran yma yn gwahodd eich barn ar sut y gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig effeithio ar bobl a chymunedau.*

**Cwestiwn 23: Ydych chi'n credu y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig i wahardd hela llwybrau yng Nghymru a Lloegr yn effeithio ar bobl a/neu gymunedau yn ehangach?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb gan gynnwys, os yw'n berthnasol, pa grwpiau o bobl/cymunedau y gellid eu heffeithio ac ym mha ffordd.

# Effeithiau ar fusnes ac effeithiau economaidd

*Bydd eich atebion i'r cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall effeithiau ar fusnes ac effeithiau economaidd posibl yn sgil cyflwyno gwaharddiad ar hela llwybrau.*

**Cwestiwn 24: Sut rydych chi'n credu y gallai'r gwaharddiad arfaethedig ar hela llwybrau effeithio ar incwm a gweithgareddau'r helfeydd sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd yma ar hyn o bryd?**

**Cwestiwn 25: Sut rydych chi'n credu y gallai'r gwaharddiad arfaethedig ar hela llwybrau effeithio ar incwm a gweithgareddau busnesau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â helfeydd sy'n ymwneud â hela llwybrau ar hyn o bryd?**

**Cwestiwn 26: Ydych chi'n credu y gallai'r gwaharddiad arfaethedig ar hela llwybrau yng Nghymru a Lloegr effeithio ar fusnesau eraill nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â hela?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb, gan gynnwys, os yw'n briodol, pa fathau o fusnesau rydych chi'n credu y gallen nhw gael eu heffeithio a sut.

# Effeithiau amgylcheddol

**Cwestiwn 27: Sut rydych chi'n credu y gallai'r gwaharddiad arfaethedig ar hela llwybrau effeithio ar yr amgylchedd neu fywyd gwyllt?**

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

# Ystyriaethau pellach

**Cwestiwn 28: Oes unrhyw faterion eraill, gan gynnwys dewisiadau amgen posibl yn lle deddfwriaeth sylfaenol, a ddylai gael eu hystyried yn eich barn chi wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth i wahardd hela llwybrau?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Wn i ddim

Esboniwch y rhesymau dros eich ateb:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 29: Oes unrhyw dystiolaeth arall yr hoffech inni ei hystyried?**

Os hoffech gyflwyno adroddiadau neu ddeunyddiau eraill nad oes modd eu cynnwys yn y lle ar gyfer atebion yn y ffurflen yma, gallwch eu hanfon aton ni ar wahân naill ai drwy'r ebost i TrailHuntingConsultation@defra.gov.uk neu drwy'r post at Trail Hunting Team, Department for Environment, Food and Rural Affairs, 2 Marsham Street, First Floor, Seacole Building, Llundain, SW1P 4DF a hynny erbyn 11.59 pm ar 18 Mehefin 2026 fan bellaf. Defnyddiwch y blwch isod i ddweud yn fyr beth rydych chi'n mynd i'w anfon a pham.

| |
|---|
| |

**Diolch ichi am ymateb i'r ymgynghoriad yma.**